# Cofnodion Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a gynhaliwyd yn Nhŷ Cwrdd Aberdaugleddau 22 Mehefin 2019

## 2019.12 Addoli agoriadol

Yn ystod ein haddoli agoriadol mae rhif 32 o *Cynghorion ac Ymholiadau* wedi'i ddarllen yn y Gymraeg a'r Saesneg gan Rhian Parry.

## 2019.13 Croeso a phresenoldeb

Rydym yn croesawu 28 o Gyfeillion yma heddiw fel a gofnodwyd ar y rhestr bresenoldeb.

Cynrychiolwyr y Cyfarfodydd Ardal heddiw yw:

CA De Cymru (CADC): Anne Hosking a Jess Morgan

CA Gororau'r De (CAGD): Jeff Beatty

CA Canolbarth Cymru (CACC): Gethin Evans a Sue Shreeve

CA Gogledd Cymru (CAGC): Ruth Moore Williams, Frances Voelcker a Martin Hughes

Ein henaduriaid ar gyfer heddiw yw: Gordon Blackburn a Gethin Evans
Ein cyfieithydd heddiw yw: Steffan Wiliam

## 2019.14. Calon a *The Friend*

Bydd Sue Shreeve yn ysgrifennu adroddiad am y cyfarfod hwn i *Calon* a bydd Anne Hoskings yn ysgrifennu i *The Friend.*

## 2019.15. Cofnodion penderfyniadau rhwng cyfarfodydd:

a) Ar ein rhan, mynychodd Catherine James y 'Te Croeso' yng Nghynhadledd yr Annibynwyr yn Rhyd-y-main ar ddechrau mis Mehefin.

b) Datganiad gan Gynulliad Cymru: Argyfwng Hinsawdd. Mewn ymgynghoriad â chlerc y Grŵp Ffocws, ysgrifennodd y cyd-glercod at y Prif Weinidog i'w longyfarch ar ddatgan argyfwng hinsawdd ac i siarad am ein gobeithion i'r dyfodol. Mae copi o'r llythyr ar gael yma heddiw. Mae copïau wedi'u hanfon at Chris Walker ac Olivia Hanks, aelodau staff ar raglen yr Economi a Chynaliadwyedd yn Friends House.

**2019.16 Cofnodion a dderbyniwyd ers ein cyfarfod diwethaf**:

Rydym wedi derbyn y cofnod canlynol gan y Cyfarfod Dioddefiadau mewn ymateb i'n cofnod 2019.08:

Yn y Cyfarfod Dioddefiadau a gynhaliwyd 6 Ebrill 2019: MfS/19/04/09 Ymadawiad Prydain â'r Undeb Ewropeaidd

Rydym yn derbyn rhan o gofnod 2019.08 Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a gynhaliwyd yn Aberystwyth ddydd Sadwrn 23 Chwefror 2019 sy'n cynnwys datganiad y mae Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru wedi cytuno arno. Mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd heddwch yn Ewrop ac yn y DU gan rannu gofid am yr holl anghydraddoldeb sy'n amlwg yn ein cymdeithas heddiw. Rydym yn cytuno â'r datganiad yma.
Rydym yn ymwybodol o'r cynnwrf mawr sy'n bodoli ar hyn o bryd ar draws y sbectrwm gwleidyddol ac yn cael ein hatgoffa, beth bynnag yw'r canlyniad gwleidyddol, y byddwn yn dal i fyw bywydau sy'n canolbwyntio ar gariad, tuag at ein cyd-ddyn yn ogystal â'r blaned, gan geisio dilyn arweiniad yr Ysbryd Glân sydd i'w gael ym mhob un ohonom.

Anne Ullathorne, Clerc / Juliet Prager, Dirprwy Glerc Cofnodi

a) Rydym wedi derbyn y cofnod canlynol gan Gwrdd Lleol Caerdydd: rhan o gofnod 19.42 Grŵp Llywio Tŷ Cwrdd y Crynwyr, Caerdydd

Rydym yn gofyn i'n Clerc Cynorthwyol anfon y cofnod canlynol at Glerc Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru: *Presenoldeb y Crynwyr ym mhrifddinas Cymru*

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae Cyfeillion Caerdydd wedi bod yn ystyried datblygiad ein Tŷ Cwrdd yn y dyfodol, wedi'n hysgogi gan yr angen am rywfaint o gynnal a chadw hanfodol. Bu Ymddiriedolwyr Cyfarfod Ardal De Cymru yn ein hannog i fod yn uchelgeisiol wrth ystyried hyn oherwydd bod ein lleoliad yn golygu ein bod yn cynrychioli presenoldeb y Crynwyr ym mhrifddinas Cymru. Mae rhentu ystafelloedd yn ystod yr wythnos yn golygu bod gynnon ni'r potensial i ddarparu incwm rheolaidd i'r Cyfarfod Ardal i gefnogi gwaith y Crynwyr ar draws de Cymru, ond dim ond os ydym yn cynyddu capasiti ac ansawdd ein cyfleusterau.

Mae gan Gwrdd Caerdydd weledigaeth o ehangu ein cefnogaeth i grwpiau cymunedol drwy drawsnewid ein hadeilad. Mae gwelliannau wedi'u cynllunio i gynnwys mynedfa fwy croesawus, ystafelloedd cwnsela newydd, gwell hygyrchedd a gwell cyfleusterau o ran y gegin a'r toiledau. Rydym wedi llwyddo i gael caniatâd cynllunio a chyllid ar gyfer y cyfnod nesaf. Dyma ein cynllun A sy'n gymedrol o ran ei hyd a'i led.

Fodd bynnag, yn ddiweddar, daeth i'n sylw fod perchnogion newydd y bloc swyddfeydd drws nesaf i'r Tŷ Cwrdd yn bwriadu ailddatblygu eu safle gan gynnwys o bosib dŵr fflatiau 18 llawr. Felly mae angen i ni ystyried goblygiadau hyn i'n hadeilad a'n cymuned addoli. Un ymagwedd yw gweld hyn fel cyfle i wneud rhywbeth ar raddfa helaethach a mwy beiddgar, sef yr hyn a anogwyd gan Paul Parker, Clerc Cofnodi Cyfarfod Blynyddol Prydain a Paul Grey, Prif Swyddog Gweithredol Lletygarwch Friends House. Mae

Cyfeillion o Grŵp Llywio Caerdydd, ynghyd â Huw Davies (Rheolwr Prosiect Cefnogi Eiddo Cyfarfod Blynyddol Prydain) wedi ymweld â Chanolfannau'r Crynwyr yn Birmingham, Manceinion, Lerpwl a Sheffield i edrych ar eu modelau busnes sy'n cynnwys rheoli proffesiynol a gofod i ganolfannau masnachol yn ogystal ag ystafelloedd at ddefnydd Crynwyr a'r gymuned. Ein gobaith yw y gall rhan o'n safle hefyd fod yn addas ar gyfer tai cymdeithasol.

Ar hyn o bryd rydym yn cychwyn ar gyfnod dichonoldeb manylach o'r dewis radicalaidd hwn mewn partneriaeth â datblygwr posibl; nid yw'r trefniad hwn yn ymrwymiad ffurfiol eto gan CADC na Chwrdd Caerdydd i fwrw ymlaen gydag unrhyw gynnig y gall y datblygwr roi gerbron ymhen amser. Byddem yn croesawu cyfleoedd i gysylltu a chydweithio â Chyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru i alluogi integreiddio cynlluniau yn y dyfodol a all orgyffwrdd neu obeithion ar gyfer tystiolaethu gan y Crynwyr ym mhrifddinas Cymru, yn ogystal â'ch cefnogaeth weddigar i'r prosiect a phawb sydd ynghlwm. Byddem yn croesawu awgrymiadau gan Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ynglŷn â sut gellid cynnal y cysylltiad.

Byddwn yn ystyried y mater hwn o dan eitem 8, Datblygiadau yn y dyfodol.

**2019.17 Enwebiadau a phenodiadau:**

Enwebiadau a geisir:

i) Cyd-glerc i wasanaethu o 01.01.20 tan 31.12.22
ii) Cynrychiolydd o Ogledd Cymru i'r Grŵp Ffocws i wasanaethu o 01.01.20 tan 31.12.22
iii) Grŵp Adnoddau: dau aelod i wasanaethu o 01.01.20 tan 31.12.22
iv) Ymddiriedolwr o Ganolbarth Cymru

a) Grŵp i drefnu cyfarfod preswyl ar gyfer mis Hydref 2021.

b) Grŵp chwilio i gael hyd i ddau aelod newydd ar gyfer y pwyllgor enwebiadau (o ddewis o Gyfarfodydd Ardal Gororau'r De a Chanolbarth Cymru) i wasanaethu o 01.01.20 tan 31.12.22

Penodir Sue Shreeve a Deborah Rowlands i fod yn grŵp chwilio am ddau aelod newydd i'r pwyllgor enwebiadau a gofynnir iddynt ddod ag enwau gerbron ein cyfarfod ym mis Hydref.

**2019.18 Jane Harries: A oes Heddwch? – Heddychwyr yng Nghymru: yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol**

Mae Jane Harries o Gwrdd Pen-y-bont ar Ogwr wedi siarad am agweddau ar dreftadaeth heddwch Cymru fel sydd wedi dod i'r golwg drwy'r prosiect Cymru dros Heddwch a gwaith heddwch ar hyn o bryd.

Siaradodd Jane am

- Gofio, er mwyn Heddwch

- Gwrthwynebu Rhyfel
- Cynnig Lloches
- Cefnogi Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Sefyll yn gadarn gydag eraill
- Ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol.

Drwy brosiect yr Ysgolion Heddwch, mae Jane ac eraill wedi gweithio gyda phobl ifainc mewn ysgolion yng Nghymru i ystyried y testunau hyn.

Er bod gan Gymru dreftadaeth gyfoethog o ran gwaith heddwch, mae angen i ni barhau i ganolbwyntio ar hyn gan fod dylanwadau gwrthwynebus yn gryf.

Er enghraifft

- Lliw a chyffro achlysuron milwrol
- Dylanwad gemau fideo treisgar
- Cyfleoedd i ennill yn ariannol drwy fusnes rhyfel, fel y fasnach arfau a hyfforddiant milwrol

Fe'n hatgoffwyd am yr angen i bob un ohonom wneud beth gallwn ni i hybu heddwch a darparodd Jane daflen awgrymiadau o gamau bach y gallen ni eu cymryd. Fe'n hatgoffwyd gan Gyfeillion am nifer o fentrau ar hyn o bryd y mae Cyfeillion yn ymwneud â nhw a'r angen i hybu heddwch drwy'r amser.

**2019.19. Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr**

Mae Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr wedi'i gylchredeg drwy e-bost a cheir copïau papur yma heddiw. Mae Deborah Rowlands, clerc i'r ymddiriedolwyr, wedi siarad am yr adroddiad ac am gyllid. Tynnodd sylw at ein perthynas â'r Cyfarfodydd Ardal. Siaradodd ein trysorydd, Martin Hughes, am y cyfrifon. Rydym yn derbyn yr adroddiad hwn a fydd yn cael ei anfon at y Comisiwn Elusennau a chyrff eraill.

**2019.20 Datblygiadau i'r dyfodol**

Mae'r cyd-glercod a'r ymddiriedolwyr wrthi'n trafod â Paul Parker (clerc cofnodi) ynglŷn â'r berthynas rhwng Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a Chyfarfod Blynyddol Prydain (CBP) ac am ddatblygiadau posibl yn y dyfodol. Bydd y cyd-glercod yn trafod y Memorandwm Dealltwriaeth rhwng Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a CBP a bydd yr ymddiriedolwyr yn trafod cyflogaeth a threfniadau ôl-fywiogrwydd.

Siaradodd Deborah Rowlands am adroddiad yr ymddiriedolwyr (Cofnod Ymddiriedolwyr 2019.11). Rydym i gyd yn edrych i symleiddio ein strwythurau a bydd y clercod a'r ymddiriedolwyr yn trafod hyn ym mis Medi gyda chlercod y cyfarfodydd ardal.

Rydym wedi clywed rhan o'r adroddiad gan Sandra Berry (Cyfarwyddwr Woodbrooke) a Paul Parker (Clerc Cofnodi) am fynd â'r gyd-raglen fywiogrwydd a chefnogaeth leol yn eu blaenau. Mae hyn yn ategu'r nod o fod â gweithiwr datblygu lleol o fewn cyrraedd pob cyfarfod.

Rydym wedi ystyried y cofnod gan Gyfeillion Caerdydd (Cofnod Caerdydd 19.42). Mae cwrdd lleol Caerdydd wedi bod yn edrych tua'r dyfodol yng ngoleuni datblygiadau adeiladu lleol o'u cwmpas. Maent yn chwilio am bartneriaid ac yn edrych ar anghenion Cyfeillion a chyfarfodydd eraill. Hoffent glywed gan rai eraill pa ddefnydd, er enghraifft, y gallai Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ei wneud o ofod yn eu datblygiadau yn y dyfodol. Maent yn agored i syniadau. Gobeithiwn y bydd Cyfeillion yn ystyried yn greadigol sut y gallem gyfranogi. Croesawn y syniad y gallai Caerdydd fod yn ddefnyddiol gan fod datganoli'n debygol o gynyddu yn y dyfodol. Gan fod Cyfarfod Blynyddol Prydain yn ystyried y posibilrwydd o wasgaru ei waith yntau o gwmpas y DU, gallai Caerdydd yn wir fod yn rhan o'i gynllunio. Mae'r amserlen yn bwysig: mae'n anodd sicrhau cydbwysedd rhwng cyfyngiadau ariannol lleol a gweledigaeth i'r dyfodol. Rhaid i bopeth a wnawn ni yng Nghymru roi ystyriaeth i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym hefyd wedi datgan Argyfwng Hinsawdd sy'n ymwneud â'n holl fyw a bod: bydd angen i ni ystyried goblygiadau teithio a datganoli'n fwy lleol. Rhaid i ni gynnal ein busnes yn fwy effeithlon a chanfod ffyrdd newydd o weithio. Gofynnwn i Deborah Rowlands fel clerc yr ymddiriedolwyr a Gordon Blackburn gysylltu â Chwrdd Caerdydd i ofyn i'r ymddiriedolwyr drafod y mater â Paul Parker fel ein bod i gyd yn gweithio mewn cytgord.

**2019.21 Adroddiadau:**

Mae Adroddiadau Cytûn a Chyngor Cynrychioladol *Quaker Life* wedi'u cylchredeg drwy e-bost ac mae copïau printiedig ar gael heddiw.

a) Cytûn: mae Gethin Evans wedi adrodd am gyfarfodydd ymddiriedolwyr Cytûn gan siarad am y gwaith trawiadol y mae'r swyddog polisi yn ei wneud gyda Llywodraeth Cymru dros yr eglwysi. Mae cyllid yn dod yn fater y mae angen mynd i'r afael ag ef yn y dyfodol agos.

Rhaid i ni roi sylw i'n perthynas â Cytûn. Nid yw'r sefydliad canolog yn gryf. Rhaid i ni aros yn rhan o waith eciwmenaidd yng Nghymru. Mae CBP yn adolygu Pwyllgor y Crynwyr ar gyfer Cysylltiadau Rhyng-ffydd. Bu cais am sylwadau clercod ond nid ydynt eto wedi ymateb.

b) Cyngor Cynrychioladol Quaker Life: mae Angela Ormerod wedi adrodd am y cyfarfod ym mis Ebrill – 'Meithrin Cymunedau Crynwyr Cynhwysol', papur a fydd yn fuddiol i ni i gyd pan fyddwn yn ystyried testun tebyg y flwyddyn nesaf.

c) Ailysgrifennu ein llyfr disgyblaeth – diweddariad

Mae Pwyllgor Diwygio'r Llyfr Disgyblaeth wedi cyfarfod am y tro cyntaf yn Llundain. Treuliwyd y penwythnos yn bennaf yn rhagchwilio'r dasg sydd o'n blaenau. Eithaf manwl yn hytrach na chyflym neu hawdd fydd hon. Cynhelir cyfarfodydd yng ngwahanol ganolfannau CBP ar ei hyd – Scarborough, Caeredin a Woodbrooke eleni.

Yng Nghymru, rydym wedi dechrau ein gwaith archwilio drwy ein gweithdy yn ein cyfarfod diwethaf a chynhelir gweithdai a chyfarfodydd pellach ar y pwnc yma. Mae gweithdy wedi'i drefnu yn Wrecsam ar gyfer clwstwr gogledd-ddwyrain Cyfarfod Ardal Gogledd Cymru erbyn mis Gorffennaf eleni.

**2019.21 Cofnod gan yr ymddiriedolwyr**

Rydym wedi derbyn y cofnod canlynol gan ein hymddiriedolwyr (Cofnod yr Ymddiriedolwyr 2019.18)):

Rydym yn argymell bod Huw Meredith Owen (Gogledd Cymru) yn cael ei benodi fel llofnodydd arall ac awdurdodydd ar-lein i gyfrif banc Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru i hwyluso gweithredu'r cyfrif. Cytunwn i'r cais yma.

Llofnodwyd:

| | | |
|---|---|---|
| Catherine James | Tricia Jones | Jane Harries |
| Cyd-glerc ar yr adeg hon | Cyd-glerc ar yr adeg hon | Clerc cynorthwyol |